

## Sut olwg sydd ar ganclwm Japan?

Mae'n hawdd adnabod canclwm a gellir ei nodi ar unrhyw adeg o'r flwyddyn gan ddefnyddio rhannau gwahanol o'r planhigyn. Gall dyfu fel un planhigyn neu mewn ardal fwy sy'n cwmpasu sawl mil o fetrau sgwâr (adwaenir fel 'llynyn' o ganclwm).

Canclwm ar ei lawn dwf yn ystod yr haf



## Y coesyn

- Mae'n dechrau tyfu bob blwyddyn tua mis Mawrth ac mae'r coesyntau ifanc newydd yn wyrdd ac yn goch tywyll i borffor eu lliw.
- Mae ganddynt ddail pinc/porffor bach iawn sy'n troi'n wyrdd yn fuan wrth dyfu.
- Mae canclwm yn tyfu'n ddryslwyn trwchus i 4m neu 12 troedfedd o uchder erbyn yr haf. Dyma'r planhigyn cyflymaf ei dwf yn y wlad a gall dyfu ychydig o gentimedrau'r dydd.
- Mae'r coesyntau hŷn ac uwch yn wag, yn wyrdd golau ac yn llawn smotiau porffor bach ac mae gwedd igam-ogam ar y 'canghennau'. Nid ydynt yn brennaidd fel coed.
- Maent yn cael eu rhannu'n adrannau gwahanol gan nodau amlwg gan wneud i'r coesyn edrych yn debyg i fambŵ. Yn aml mae dŵr y tu mewn i'r coesyntau uwchben y nodau.
- Gall coesyn planhigyn mawr fod bron 5cm neu 2 fodfedd o drwch ar y bôn.
- Ar ôl y rhewogydd cyntaf, mae'r coesyntau'n gwywo gan droi'n frown ac yn galed a gallant aros yn unionsyth am ychydig o flynyddoedd cyn cwmpo drosodd.

Egin a choesyntau ifanc yn y gwanwyn





Coesyn haf yn dangos nod a smotiau porffor



Canghennau igam-ogam




## Coesyinnau gaeaf



### Y Ddeilen

- Yn ystod y gwanwyn a'r gaeaf, mae'r dail hirgrwn byw'n wyrdd golau a gloyw gyda gwythiennau a gwythien ganol amlwg.
- Mae ganddynt 'flaen diferion' pigfain, bôn gwastad, coesyn pincaidd/coch sy'n atodedig i'r coesyn mewn patrwm eiledol. Nid ydynt yn atodedig i'r coesyn gyferbyn â'i gilydd. Mae ymylon y dail yn llyfn.
- Weithiau efallai y bydd ganddynt fand melyn wedi'i achosi trwy fod yn agored i'r tywydd.
- Yn yr hydref, mae'r dail yn troi'n frown ac yn gollwng i'r llawr gan ffurfio haenen drwchus sy'n gweithredu fel tomwellt. Maent yn cadw eu siâp hyd yn oed fel sgerbwdd nes iddynt bydru ar ôl ychydig o flynyddoedd.
- Mae'r maint fel arfer yn amrywio rhwng 10 a 15cm o hyd (efallai mwy yn y cysgod)

Deilen haf



Deilen gaeaf farw





## Y rhisom

- Mae gwreiddyn y planhigyn (sydd mewn gwirionedd yn goesyn o dan y ddaear a adwaenir fel rhisom), yn storio egni'r planhigyn dros y gaeaf ac yn anfon y twf newydd bob gwanwyn. Mae'r egin newydd yn tyfu o flagur wrth fôn coesynnau'r flwyddyn flaenorol ac o'r rhisom ei hun.
- Mae'n hawdd nodi rhisomau gan eu bod yn lliw rhwd neu foron y tu mewn ac yn frown ac yn geinciog ar y tu allan. Gallant edrych yn debyg i ddarn mawr iawn o sinsir.
- Gallant dyfu i lawr i 2m (6 throedfedd) o ddyfnder a chyrraedd hyd at 7m (21 droedfedd) o'r planhigyn.
- Gall rhisom mawr a sefydledig dyfu i faint coes rhywun a gall darn mân dyfu'n blanhigyn newydd.

Croestoriad rhisom yn dangos y lliw rhwd



Darn mawr o risom (gyda chas CD ar gyfer graddfa)



## Y blodau a'r hadau

- Mae'r blodau bach yn cael eu ffurfio rhwng diwedd yr haf a'r hydref ac yn lliw hufennaidd/gwyn deniadol. Maent yn cael eu cynhyrchu ar goesynnau a all fod hyd at 15cm (6 modfedd) o hyd.
- Mae gwenyn a phryfed eraill yn cael eu denu i'r blodau gan eu bod yn cael eu cynhyrchu'n gymharol hwyr yn y flwyddyn pan fo'r rhan fwyaf o blanhigion eraill eisoes wedi blodeuo.
- Mae'r hadau brown bach yn mesur 3-4mm (tua ¼ modfedd) yn unig ac yn cael eu cadw mewn cas papuraidd, tenau. Maent yn disgyn o'r planhigyn yn fuan ar ôl blodeuo ac maent i'w gweld ar y llawr.
- Prin mae'r hadau'n tyfu yn y wlad hon gan eu bod yn ddiffwrth.

## Blodau canclwm




## Pa olwg sydd arno?

Er ei fod yn hawdd nodi canclwm, gellir ei ddrysu ag ychydig o blanhigion eraill a phrysgwydd neu goed. Mewn gwirionedd, gellir eu drysu â choed dim ond ar ôl iddynt gael eu torri ac mae'r egin newydd yn ailflaguro.

- Collen *Corylus avellana*

Coeden goetir sydd yn aml yn cael ei thorri'n ôl (ei phrysgoedio) i gynhyrchu llawer o goesynnau bach.



- Mae gan y dail ymylon danheddog fel llif
- Mae'r dail a'r brigau'n flewog
- Gall dyfu'n goeden fach
- Mae'n brennaidd â rhisgl
- Mae ganddi wyddau bach ac mae'n cynhyrchu cnau



- Gwern *Alnus glutinosa*

Coeden gyffredin sydd i'w gweld ger dŵr fel arfer.



- Mae gan y dail ymylon ychydig yn ddanheddog fel llif
- Dail 'crwn' heb flaen diferion
- Gall dyfu i goeden faint canolig
- Mae'n brennaidd â rhisgl
- Mae ganddi wyddau bach a chonau bach

- Cwyrwial *Cornus*

Mae llawer o fathau gwahanol o'r prysgwydd hwn ac yn aml mae i'w weld gyda phlanhigion addurnol gyda choesyn o liwiau gwahanol.




- Mae'r dail gyferbyn i'w gilydd ar y coesyn
- Gall y coesynnau fod yn goch, yn felyn neu'n wyrdd
- Mae'n tyfu i faint prysgwydd neu lwyn yn unig
- Mae'n brennaidd â rhisgl
- Mae'n cynhyrchu ffrwythau bach sy'n debyg i gyrens duon ddiwedd yr haf



- Bachgen Llwm *Leycesteria formosa*

Mae'r prysgwydd deniadol hwn yn gyffredin mewn gerddi, ond yn dod yn fwy mynych mewn parciau a choedydd.



- Mae'r dail gyferbyn â'i gilydd ar y coesyn
- Mae gan y dail ddannedd bach ar hyd yr ymylon
- Mae'r coesynnau'n wyrdd
- Mae'n tyfu i faint prysgwydd neu lwyn yn unig
- Blodau gwyn yn yr haf
- Mae'n cynhyrchu mwyar cochion, tywyll, bach sy'n hongian mewn clystyrau ddiwedd yr haf



- Taglys y perthi *Calystegia sepium*

Planhigyn dringo cyffredin a ystyrir yn chwyn yn aml.



- Blodau gwyn, mawr, unigol
- Mae'n dringo dros blanhigion
- Nid yw'r dail wrth y bôn yn wastad
- Coesyn troellog, tenau

- Marchrawnen yr ardir *Equisetum arvense*

Er nad yw'r planhigyn hwn yn edrych fel canclwm Japan, mae'n gyffredin mewn gerddi ac yn aml yn cael ei gamadnabod. Mae'n edrych yn debyg i binwydden fach.

- Yn yr haf, mae'r egin gwyrdd yn tyfu i oddeutu 60cm neu 2tr. o uchder
- Yn y gwanwyn, mae côn ym mhen yr egin brown, byrrach
- Mae'n gwywo yn y gaeaf
- Nodwydd denau iawn fel dail gwyrdd mewn troellau o gwmpas y coesyn sy'n wrymiog
- Mae'n ffurfio dryslwyn trwchus a gall achosi difrod i ddreifiau, tarmac etc.
- Mae ganddi system gwreiddiau dwfn (rhisom) ac mae'n anodd ei rheoli

Twf gwanwyn gyda'r 'côn'



Twf haf

